# Y BIGWN

CYF. 30 RHIF 3 MAI 2018 *Papur Bro Dinbych* *Pris 50c*


# Digwyddiadau Sul y Pasg



Joseph a'r Siaced Fraith gan Y Capel Mawr yng Ngŵyl Flodau'r Pasg - mwy ar y dudalen gefn.



Gwasanaeth a gynhaliwyd yng Nghastell, Dinbych 7 o'r gloch bore Sul y Pasg



Gymdeithas y Chwiorydd y Fron a’r Brwcws yn Fferm Llainwen Ucha, Pentrecelyn.

**Mae angen i BOB DIM fod wedi cyrraedd bocs Y Bigwn erbyn Dydd Gwener, Mai 18 - Ar Werth Mehefin 2il, 2018**

# Cynnyrch cig arbennig







Dafydd, Gareth a Richard

Llongyfarchiadau i Dafydd, Gareth a Richard o siop J.H.Jones a'i Gwmni, 92 Stryd y Dyffryn ar eu llwyddiant yng nghystadleuaeth 'Gwobrau am ragoriaeth mewn cynnyrch cig-Gogledd Cymru a Sir Gaer', a gynhaliwyd yng Ngwesty'r Kinmel, Abergele yn ddiweddar. Enillwyd 11 gwobr aur a phedair gwobr arian cyn mynd ymlaen i gipio dwy bencampwriaeth gyda chig moch wedi ei halltu adref a dosbarth y pastai poeth gyda eu pastai Stêc Poeth. Galwch heibio i weld eu cynnyrch amrywiol.

*Elfair Roberts*






Gwlwch i mewn mae mwy yno na chig da

Y BIGWN

**Cartwnau Huw**

Rhifyn arbennig o'r **Bigwn** yn cynnwys gwaith ein cartwnydd Huw Vaughan Jones dros gyfnod o ddeng mlynedd ar hugain

Ar werth yn Siop Clwyd

**Pris- £3 Pris drwy'r post - £4**

Ar gyfer sicrhau copi drwy'r post cysylltwch â:-
John Geraint Jones -
jones_john@btinternet.com

## RHESTR Y SWYDDOGION

**CADEIRYDD**
- **Stan Lyall 813659**

**SWYDDOG HYSBYSEBION**
Sian Jones
01745 812214
russelljones9
@talktalk.net

**GOLYGYDDION:**
Berwyn Roberts (812672)
John Davies (812239)
Erfyl Williams (814832)
Catrin Warren (814675)
Ceredig Gwynn (815701)
Ruth Williams (812822)
Angharad Rhys (813259)
Dyfrig Berry (814362)
Morgan Cordiner (815149)

**YSGRIFENNYDD**
Bedwyr Griffiths
Bryn Llys, 10 Llain y Capel
Dinbych LL16 3TU
01745 814497
ebost:
ed321@btinternet.com

**TRYSORYDD**
John Geraint Jones
18 Llys Marchell, Dinbych
LL16 4AR
01745 817485

**CARTWNYDD**
Huw Vaughan Jones

**DOSBARTHWYR**
Llifon Jones (814677)
Dafydd Williams (813065)

**TEIPYDDION:**
Ffion Whitham (01824 704642)
Rhian Williams (816251)
Sian Rogers (813368)
Gwenan Ellis (813106)

**Ebost y Bigwn:**
ybigwn@hotmail.co.uk

Ariennir gan
**Lywodraeth Cymru**
Funded by
**Welsh Government**

# Gair gan y Golygydd

Ydach chi'n hapus byw yn Ninbych? Yn yr wythnosau diwethaf mae cryn sylw wedi bod ar y dref oherwydd drwgweithredwyr. Mae'n debyg ei fod wedi bod yn brofiad difrifol bod ym Manc yr HSBC pan ddaeth y dyn yno ar Ebrill 18fed a bygwth y staff a'r cwsmeriaid. Mae lladron wedi ymweld â nifer o fusnesi y dref yn y misoedd diwethaf a heddlu (arfog medde' nhw) yn Stryd Henllan. Os darllenwch y Daily Post a'r Free Press mae'n teimlo fel bod pethau drwg yn digwydd yma o hyd.
Mae'n rhaid cyfaddef bod agwedd eitha' negyddol am Ddinbych i'w glywed yn yr ardal o'n cwmpas. Roedd aelod newydd o staff wedi symud i'r ardal o'r Alban. Roedd ei gŵr wedi cael gwaith ym Mharc Busnes Llanelwy a'r teulu - dau o blant oed ysgol gynradd - yn ystyried lle i fyw. "Fe wnaethom ni edrych ar dŷ yn Ninbych" meddai hi "ond cael ein hargymell i edrych yn rhywle arall - bod Dinbych "yn le rough"!"
Nid yw saga yr Ysbyty Meddwl yn helpu, yn fy marn i. Mae o'n adeilad tu hwnt o hardd sydd yn creu emosiynau amrywiol sy'n dibynnu ar eich profiadau o'r lle, boed nhw'n bositif fel sefydliad hyfforddodd a chyflogodd gymaint o bobl Dinbych a'r cylch neu yn fwy dwys os buoch chi neu aelod o'r teulu yn cael gofal yno. Does gennyf ddim teimladau cryf dros ei ragolygon yn y dyfodol ond mi fuasai'n braf cael penderfyniad terfynol. Mae gweld lluniau y lle yn llosgi ac yn mynd yn fwy o adfail yn drist ond eto nid yw'r syniad o ryw westy nofelti yn apelio chwaith.
Gŵyr pawb ohonom sydd yn byw yn y dref ei fod yn le da, braf i fyw - nid yw'n fêl i gyd, ond mae'r da yn goresgyn y drwg? Mae cymaint o bethau yn mynd ymlaen yma. Mae pobl yn rhoi eu hamser at achosion da, i gefnogi cymdeithasau, i rannu a phrofi diwylliant a chelf - darllenwch dudalennau y papur yma amdanynt. Mae pobl dda yn byw yma, ac rydw i'n gwybod o brofiad personol y mis neu ddau diwethaf mae cymdeithas o bobl sydd yn barod hefo gair caredig a chydymdeimlad ydi llawer o'n trigolion.
Felly rydw i'n bositif am fyw yn Ninbych, yn falch o gydnabod hynny ac yn annog unrhyw un sy'n ystyried lle i fyw yn yr ardal i ddewis Dinbych.

Catrin

## Dyddiadur

**8 Mai – Cyfarfod Pwyllgor Apêl Dinbych** – Swyddfa'r Urdd, Dinbych – 7pm

**Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2020 Pwyllgor Apêl Tref Dinbych**
Nos Wener, **Mai 18fed** am 7yh i lansio'r apêl Noson i'r Teulu yn y Clwb Rygbi, Bar ar agor, bwyd poeth a gweithgareddau i'r plant £7 i oedolion £3 i blant

**22 Mehefin - Gwefr heb Wifrau** - darlith ar "Effeithiolrwydd a Diogelwch Meddyginiathau' gan yr Athro Dyfrig Hughes, 7.00 y.h.

**Mehefin 29** Noson Goffi a Hwyl yn Ysgol Llanrhaeadr - MENCAP Dinbych a Rhuthun






# Y Capeli

## Capel y Brwcws

Oherwydd yr eira ni fu gwasanaethau Dydd Sul, Mawrth 18fed.

Agorwyd yr Ysgol Sul, Mawrth 25ain gan Carolyn Thomas. Croesawyd y Parch. John Owen, Rhuthun atom yn oedfa'r prynhawn. Eleanor Roberts oedd yr organydd.

Cynhaliwyd yr Ŵyl Flodau a gweithgareddau'r Pasg eleni yn y Capel Mawr. Nos Iau Cablyd cafwyd gwasanaeth wedi ei baratoi gan Carolyn Thomas. Nos Wener y Groglith bu Oedfa Bregethu yng Nghapel y Dyffryn gyda'r Parch. Robert Parry, Wrecsam. Bore Sul y Pasg cynhaliwyd gwasanaeth wrth y Castell ar doriad gwawr. Y Parch. Nesta Davies oedd yn arwain. Bu Oedfa Gymun, yn ddiweddarach yn y Capel Mawr, dan ofal ein gweinidog y Parch. Andras Iago. Aeth y plant i wneud gweithgareddau yn y festri dan ofal Nerys Ann Roberts. Dros y penwythnos cawsom gyfle i ryfeddu at ddawn y chwiorydd yn yr arddangosfa flodau a chrefftau. Diolch i Lis Edwards am ei gosodiad blodau arbennig. Diolch hefyd i'r chwiorydd fu yn helpu gyda'r te brynhawn Llun y Pasg ac i Carolyn Thomas am baratoi ar gyfer nos Iau Cablyd.

Bore Sul, Ebrill 8fed Lis Edwards gyda chymorth Mari a Beca agorodd yr Ysgol Sul. Yn y prynhawn daeth Bethan Williams, Rhuthun atom i roi hanes ei gwaith gyda "Homestart". Yr organydd oedd Carolyn Thomas. Diolch i Lis Edwards am y blodau hardd.

Yn yr Ysgol Sul, Ebrill 15fed, Rhianwen Williams fu yn gofalu am y rhannau arweiniol. Y Parch. Megan Williams oedd y cennad yn y prynhawn gyda Eleanor Roberts wrth yr offeryn.

Dymuniadau gorau am wellhad buan i John Alwyn Jones, Fferm Brondyffryn yn dilyn triniaeth yn Ysbyty Arrowe Park.

Diolch i'r chwiorydd am eu cyfraniad at waith y Sasiwn Genhadol. 'Roedd y cyfanswm yn £65.

Nos Fercher, Ebrill 20fed aeth criw o Gymdeithas y Chwiorydd y Fron a'r Brwcws i Fferm Llainwen Ucha, Pentrecelyn. Cawsom noson ddifyr iawn yn dysgu am yr ieir a'r wyau lliwgar maent yn eu cynhyrchu. Talwyd y diolchiadau i'r teulu am y croeso arbennig a gawsom gan Dilys Davies.

## Y Capel Mawr a Seion

Y Parch. John Owen, Rhuthun, oedd y cennad ar fore Sul, Mawrth 25ain. Croesawyd ef gan Mr Gwilym Luke Jones. Mrs Dorothy Rogers oedd wrth yr organ.

Cynhaliwyd yr Ŵyl Flodau yn Y Capel Mawr yn ystod y cyfnod rhwng Dydd Iau Cablyd a Dydd Llun Y Pasg, a mawr oedd y ganmoliaeth i'r arddangosfeydd o'r gwahanol eglwysi a'r trefniadau.

Nos Iau Cablyd cynhaliwyd oedfa gan ferched Y Fro yn y capel. Lluniwyd y gwasanaeth gan Mrs Carolyn Thomas, Y Brwcws, a chymerwyd rhan gan y chwiorydd o'r gwahanol eglwysi. Gweinyddwyd y Sacrament o Swper yr Arglwydd gan y Gweinidog, y Parch. Ddr. Andras Iago, a Mrs Catrin Warren oedd wrth yr organ.

Roedd yr arddangosfeydd yn gefndir lliwgar i Oedfa'r Fro, a gynhaliwyd yn yr eglwys ar fore Sul Y Pasg dan arweiniad y Gweinidog. Mrs Dorothy Rogers oedd wrth yr organ, a chroesawyd pawb i'r gwasanaeth gan Mrs Cheryl Williams, llywydd y mis.

Mr Dilwyn Jones oedd y cennad ar nos Sul, Ebrill 8fed, a chroesawyd ef gan Mrs Cheryl Williams. Cyfeiliwyd gan Mrs Catrin Warren.

Daeth y Parch. Megan Williams, Porthaethwy atom ar fore Sul, Ebrill 15. Mrs Cheryl Williams wnaeth estyn croeso iddi yn ogystal â chydymdeimlo â Mr Eirwyn Edwards, Nantglyn, a'r teulu yn ei brofedigaeth o golli'i frawd a Mr Steffan Jones, Llwyn y Gôg, a'r teulu yn ei brofedigaeth o golli'i daid. Mrs Dorothy Rogers oedd yr organydd.

## Aelwyd Y Capel Mawr

Dechreuwyd cyfarfod mis Mawrth gan Rhiannon Wynne, darllenodd ddau emyn addas iawn. Cyflwynwyd y siaradwr gwadd gan Helena Williams. Mae Phylip Hughes yn gyn-aelod o'r Capel Mawr ac yn actor cyfarwydd iawn ar S4C. Roedd wedi dod i siarad am y ffoaduriaid, ac fel yr aeth i wirfoddoli yn y 'Jyngl' yn Calais gan ddysgu Saesneg iddynt yn bennaf. Roedd wedi penderfynu gwirfoddoli i elusen flynyddoedd yn ôl wedi iddo deimlo cywilydd wedi gweld ei wyres yn rhoi ei hamser i helpu rhai mewn angen. Cawsom hanes a gweld lluniau o'r Jyngl ac fel yr oedd y ffoaduriaid wedi gwneud eu cabanau. Roedd yr Eglwys a godwyd gan Gristnogion o Eritrea yn anhygoel. Peth arall barodd syndod oedd y gwirfoddolwyr o bob cefndir, rhai yn fyfyrwyr a hyd yn oed fargyfreithiwr o Lundain yn rhoi eu hamser sbâr i helpu'r trueiniaid hyn. Roedd y sgwrs yn ddiddorol iawn ac yn agoriad llygad i ni i gyd. Diolchwyd i Phylip Hughes gan Mair, a diolch i Gwilym Luke Jones am ddod atom un waith eto i helpu gyda'r "powerpoint". Diolch hefyd i Carys Jones a Helena Williams am y baned.

Dorothy Rogers ddechreuodd cyfarfod mis Ebrill drwy ddarllen gweddi Gareth Maelor i'r Gwanwyn oedd yn addas iawn. Alun Williams, Trefnant oedd wedi dod atom y tro hwn a chroesawyd ef gan y llywydd. Roedd wedi dod i siarad a dangos lluniau gymerodd o'r byd natur yn Zambia tra roedd yna ar ei wyliau ychydig yn ôl. Cawsom brynhawn difyr iawn eto a mwynhawyd y lluniau anhygoel a hanes y wlad gawsom. Roedd adar fel y troellwr, aderyn y bwn, ciconia glas y dorlan a llawer arall yno, ond rhywogaethau gwahanol i'r adar hynny yn y wlad hon. Hefyd gymaint o anifeiliaid fel yr impala, eliffantod, llewod, zebra ac eraill. Diolchwyd iddo gan Tom Williams, a braf oedd ei weld yn ôl ar ôl ei driniaeth. Buom yn meddwl ac anfonwn ein cofion at rai eraill o'r Capel sydd ddim yn dda ar hyn o bryd. Diolch hefyd i Carys Jones a Dorothy Bartley am baratoi paned.

## Capel y Fron

Unwaith eto eleni fe wnaeth yr eira ein gorfodi i ganslo oedfa bore dydd Sul, Mawrth 18fed. Fe wnaeth Mr Richard Snelson ddiolch ar ein rhan i'r Parch Glyn Thomas, Abergele am ei wasanaeth nos Sul, Mawrth 25ain, a'r organydd oedd Mrs Eiri Jones.

Yr oedd dathliadau'r Pasg eleni yn cael eu cynnal yn y Capel Mawr. Yr oedd gwasanaeth Nos Iau Cablyd yn un bendithiol iawn wedi ei drefnu gan Mrs Carolyn Thomas gyda chwiorydd o bob eglwys yn yr Ofalaeth yn cymryd rhan. Mrs Olwen Griffiths fu yn ein cynrychioli ni, chwiorydd y Fron. Fe weinyddwyd y Cymun Sanctaidd gan y Parch Andras Iago. Eto eleni roedd yr Ŵyl Flodau yn llwyddiannus iawn a phob capel wedi bod yn brysur iawn gyda'r gosodiadau hyfryd ar thema 'Storïau o'r Beibl'. Y Croeshoeliad oedd thema chwiorydd y Fron. Diolch i bawb am bob cyfraniad gyda'r blodau, gwaith crefft ac i'r rhai fu'n paratoi a gweini paned ac yn croesawu ymwelwyr ar brynhawn Llun y Pasg.

Fore Sul y Pasg, o dan nawdd Cytûn, roedd gwasanaeth dan ofal y Parch Nesta Davies am 7 o'r gloch yn y Castell gyda brecwast yn dilyn yn festri y Capel Mawr. Yn dilyn, arweiniodd ein gweinidog y Parch Andras Iago Oedfa'r Fro gyda neges arbennig i'r plant.
Braf oedd cael gwasanaeth y Parch Tom Williams, Henllan fore Sul, Ebrill yr 8fed gyda Mrs Eiri Jones wrth yr organ. Fe groesawodd Mrs Gaynor Prew, Mrs Gwyneth Morris i'r oedfa, yr oedd yn braf ei gweld yno unwaith eto. Nos Sul, Ebrill 15 fed, cawsom gwmni y Parch Megan Williams a'r tro yma croesawodd Mrs Gaynor Prew Mrs Megan Williams yn ôl at yr organ wedi cyfnod o salwch.

Mae amryw o'n haelodau wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty yn ddiweddar. Mae Mrs Anwen Williams, Carrog a Mrs Megan Williams, Groeswen wedi treulio peth amser yn Ysbyty Glan Clwyd. Aeth Mr John Howatson i'r ysbyty ar frys a Mr Richard Snelson wedi cael triniaeth ar ei law. Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau iddynt.



TE YN Y GRUG

**Tŷ Te a Delicatessen**
**Coronation Buildings,**
**Lôn Gefn,**
**Dinbych, Ll16 3TE**
**deli@teynygrug.co.uk**

**01745 816576**

**Gwelliannau Cartref DBP G.Cymru**

DBP
Home Improvements N.Wales

**Tŷ DBP**
**Stad Ddiwydiannol Colomendy**
**Dinbych.**
**Ffôn: Mike Hargraves ar 01745 815555**
**Symudol: 07778752822**

**Dewch am baned ac i weld yr ystafelloedd arddangos newydd, modern a chyfoes.**




**Diolch i'n cwsmeriaid am eu cefnogaeth dros y blynyddoedd ac edrychwn ymlaen at gyfarfod cwsmeriaid hen a newydd.**

**Ffenestri U-PVC, Unedau wedi'u selio, Drysau, Ystafelloedd Gwydr, Portshys, Cynnyrch Roofline, Systemau Bargod Sych, Toeau Firestone a Guardian.**

# Y Cymdeithasau

**Cymdeithas y Chwiorydd y Fron a'r Brwcws**

*Dyma ail ran sgwrs Dafydd Lloyd Jones a Clwyd Wynne ar y testun 'Ysbyty Gogledd Cymru 1848-1995.' Fe ddiflannodd* ***'i barhau'*** *ar ddiwedd rhan gyntaf y sgwrs yn rhifyn mis Ebrill. Dyma'r ail ran:*


Erbyn cyfnod y Rhyfel Byd Cyntaf roedd pwysau i ychwanegu gwelyau yn dal i fodoli ac o ganlyniad, fe gafwyd 400 o welyau ychwanegol yn dilyn yr estyniad diweddaraf.

Yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf fe ymunodd nifer o'r dynion oedd ar y staff â'r fyddin ac fe gyflogwyd staff oedd wedi ymddeol yn eu lle.

Hefyd am y tro cyntaf erioed, defnyddiwyd staff benywaidd ar wardiau'r dynion.

Derbyniwyd dros 100 o filwyr yn gleifion yn ystod blynyddoedd y rhyfel ac fe barhaodd 56 i fod yno ar ôl hynny a'r rhan fwyaf yn dioddef o 'General Paralysis of the Insane' o ganlyniad i gael eu heintio â syffilis. Derbyniwyd llawer mwy am rai blynyddoedd wedyn o ganlyniad i'w profiad yn y rhyfel.

Dyma'r amser y cyflwynwyd hyfforddiant i nyrsys yn eu hamser eu hunain i dderbyn y cymhwyster RMPA (Royal Medico – Psychological Association). Cyn hyn, nid oedd y staff ond wedi cael eu hyfforddi mewn Cymorth Cyntaf.



Ar ôl y Rhyfel Byd Cyntaf, roedd galw am welyau yn amlwg eto ac mewn dim amser, arweiniodd hyn at orboblogi. Methodd yr ymgais i leihau'r niferoedd trwy annog y siroedd i adeiladu ysbytai i rai gydag anabledd dysgu. Ni ddigwyddodd hyn tan yn hwyr yn y 40au.

Dyma'r amser pan oedd triniaethau corfforol meddygol yn cael eu datblygu. Defnyddiwyd triniaethau meddygol i gymell ffitiau gyda'r bwriad i drin sgitsoffrenia. Enwau'r rhain oedd Cardiazol a thriniaeth sioc inswlin. Roedd y rhain yn eithaf peryglus ac yn achosi rhai marwolaethau ond dywedwyd eu bod yn effeithiol ond nid oedd unrhyw dreialon gwrthrychol i brofi hyn.

Roedd cleifion a oedd yn dioddef o epilepsi tua 20%




o boblogaeth yr ysbyty a phan ddarganfuwyd Epanutin, bu lleihad yn y niferoedd a oedd angen aros yno'n barhaol.

Rhoddwyd y driniaeth E.C.T.(Electro Convulsive Therapy) ar gyfer sgitsoffrenia ac iselder ysbryd am y tro cyntaf yn 1941 er gwaethaf ei gymhlethdodau.

Roedd Leucotomy yn cael ei ddefnyddio am y tro cyntaf yn ystod y cyfnod hwn ac yn cael ei ystyried fel y dewis olaf ar gyfer cleifion gyda sgitsoffrenia a oedd yn methu edrych ar ôl eu hunain ac yn ymosodol ac yn dreisgar. Honnwyd fod y ddwy driniaeth hyn yn llwyddiannus ond ataliwyd Leucotomy yn y 60au cynnar. Fodd bynnag, mae ECT yn parhau hyd heddiw ond gydag anaesthetig a chyffuriau i ymlacio'r cyhyrau.

Yn ystod yr Ail Ryfel Byd, galwyd ar lawer o nyrsys hyfforddedig i'r Lluoedd Arfog a'r tro hwn yn cynnwys rhai o'r merched hefyd.

Roedd yn rhaid cyflogi staff oedd wedi ymddeol a staff dros dro, felly cafodd llawer o'r gweithgareddau eu lleihau a merched eto'n gweithio ar wardiau'r dynion.

Yn fuan ar ôl y rhyfel, cymerodd y Gwasanaeth Iechyd Gwladol reolaeth ar yr ysbyty ar ôl 100 mlynedd.

Daeth triniaethau meddygol yn fwy effeithiol. Dechreuwyd defnyddio therapïau seicolegol a therapïau galwedigaethol. Ffurfiwyd hyfforddiant nyrsio ar gyfer y cymhwyster Registered Mental Nurse (RMN) ac aeth llawer o'r nyrsys ymlaen i wneud eu hyfforddiant nyrsio cyffredinol i gymhwyso fel SRN.

Roedd gwaith a hamdden yn dal i gael eu defnyddio'n eang fel triniaethau a byddai'n 10 i 15 mlynedd

Guthrie Jones a Jones Cyfreithwyr
Osian Roberts LL.B , Nansi Thirsk LL.B,
Dylan Edwards B.A.,LL.B
29 Ffordd Rhuthun, Dinbych LL16 3EH
Ffôn: 01745 814 817 dinbych@guthriejj.co.uk
GWASANAETH CYFREITHIOL CYFLAWN YN Y GYMRAEG
yn y Swyddfa neu Gartref

MALDWYN WILLIAMS
Ffordd y Rhyl, Dinbych
Ffôn:01745 812542
DARNAU I BOB MATH O GEIR
STÔRS: 813840
GORSAF MOT
GOLCHFA CEIR
GWERTHU CEIR A CHERBYDAU 4 X 4
Ffôn:01745 814647
maldwynwilliams@garageservices1.fsnet.co.uk






yn ddiweddarach cyn i hyn gael ei atal fel triniaeth ond parhaodd adloniant tan gaewyd yr ysbyty yn 1995.
Yn y 50au penodwyd Swyddog Chwaraeon a Hamdden a ffurfiwyd Clwb Chwaraeon a Chymdeithasol i'r staff. Sefydlwyd digwyddiadau blynyddol megis y Sioe Flodau, y Carnifal a Mabolgampau ac yn ddiweddarach yr Eisteddfod Flynyddol. Cynhaliwyd dawnsfeydd, gyrfaoedd chwist a gweithgareddau corfforol megis tenis bwrdd, criced a phêl-droed.

Dau o'r digwyddiadau mwyaf poblogaidd ar gyfer y staff oedd parti Nadolig plant y staff a'r dawnsfeydd a gynhaliwyd tua phedair gwaith y flwyddyn a daeth llawer o fandiau dawns adnabyddus y cyfnod i chwarae gan gynnwys George Melly, Kenny Ball, Bob Miller ac Acker Bilk.
Roedd poblogaeth yr ysbyty yn parhau i gynyddu ac yng nghanol y 50au fe gyrhaeddodd dros 1500.

Roedd y rhan fwyaf o'r cleifion erbyn hynny yn gleifion gwirfoddol ac roedd llawer bellach yn cael eu trin fel cleifion allanol. Fodd bynnag, roedd nifer fawr o hyd wedi bod yn gleifion yn yr ysbyty am nifer o flynyddoedd a rhai cymaint â 50 a 60 o flynyddoedd.
Yn ystod y cyfnod hwn fe ddarganfuwyd cyffur o'r enw Largactil a wnaeth wahaniaeth mawr o ran trin sgitsoffrenia ac er nad ei wella'n llwyr roedd yn lleihau ei symptomau difrifol ac yn caniatáu peidio gorfod cloi drysau'r wardiau a drysau allanol yr ysbyty.

Roedd meddyginiaethau eraill yn cael eu datblygu'n gyflym ac ynghyd â thriniaethau seicolegol a mwy o gyfleusterau yn y gymuned leol, roedd arhosiad y claf yn llawer byrrach. Galluogai i staff yr ysbyty ddechrau meddwl am symud rhai o'r cleifion arhosiad hir yn ôl i'r gymuned.

Daeth hyn yn realiti yn y 60au yn dilyn cyhoeddiad Enoch Powell o'r Cynllun Ysbytai ar gyfer Cymru a Lloegr lle rhagwelodd cau pob ysbyty meddwl. Erbyn hyn yr oedd y fferm wedi cael ei gwerthu ac roedd y gwaith ar gael yn unig i'r cleifion a oedd wedi bod yn gweithio yng ngwahanol adrannau'r ysbyty am flynyddoedd lawer.

Nid oedd y cynllun cyntaf i adsefydlu cleifion tymor hir yn y gymuned wedi bod yn llwyddiannus. Dychwelodd llawer i'r ysbyty ac fe ddechreuodd cynllun cynhwysfawr o adsefydlu cleifion yn y gymuned ac yn raddol gyda gwelliannau pellach mewn meddyginiaeth, cynnydd mewn staff a chyfleusterau cymunedol, dechreuodd y cleifion gael eu rhyddhau ac o ganol y 60au gostyngodd y boblogaeth yn yr ysbyty.

Gyda llai o gleifion, daeth gostyngiad yn y gweithgareddau hamdden ac adloniant ar gyfer y staff a'r cleifion.
Erbyn canol yr 80au, penderfynwyd y dylai strategaeth deng mlynedd gael ei roi ar waith ar gyfer cau ac erbyn 1995, caewyd yr ysbyty ar wahân i uned fechan ar safle Gwynfryn a barhaodd am ychydig o flynyddoedd wedyn.

# Tri Gog a Hwntw

**Noson o ganu hwyliog yng nghwmni**
**Huw a Bethan Antur a'r criw.**
**Nos Sadwrn, 9 fed o Fehefin am 7 y.h.**
**Clwb Rygbi Dinbych**
**Tocynnau £7.50**
**Nan Williams 01745 550304 neu**
**Meinir Jones 01745 440425**
**Trefnir y noson gan Bwyllgor Neuadd y Plwyf, Bylchau**
**Gyda chefnogaeth Gŵyl Ganol Haf, Dinbych.**

siop siocled
01745 814864 dinbych
RWAN YN DERBYN ARCHEBION:
PARTION PLANT, NOSWEITHIAU MWYTHAU I'R ARDDEGAU/OEDOLION A BUSNESAU
* Partion Mwythau o £99
* Partion Siocled o £125
* Nosweithiau i Oedolion a Busnesau o £150
I sicrhau dyddiad i'ch parti ffoniwch 01745 814864
neu ebostiwch mark@denbighchocolateshop.com
Stryd y Dyffryn, Dinbych
www.denbighchocolateshop.com
YN FALCH I GEFNOGI Y BIGWN

# Cymdeithas Gorawl Dinbych a'r Cylch



## Noson i'w Chofio

Ar ôl hirlwm dymor y gaeaf eleni pleser oedd cael ymuno gyda chynulleidfa niferus i fwynhau Cyngerdd Cymdeithas Gorawl Dinbych a'r Cylch oedd hefo tros 70 o leisiau ar y llwyfan dan arweinyddiaeth eu Cyfarwyddwr Cerdd, Beryl Lloyd Roberts. Hwn oedd eu Cyngerdd Gwanwyn ac fe'i cynhaliwyd ar Nos Wener 13eg o Ebrill yn Neuadd y Dre, Dinbych. Sefydlwyd y Côr yma tua diwedd 1999 ar gyfer perfformiad Côr yr Eisteddfod Genedlaethol yn Ninbych 2001 - ac os ca i yn bersonol ddweud fe gawsom "Chwip o Noson" ganddynt eleni.

'Roedd dewisiad Beryl o'r darnau cerddorol y Côr yn gweddu'n hollol i leisiau'r Côr ac i naws y Gyngerdd Gwanwyn ac wrth gwrs 'roedd rhaid cael cyfeilydd penigamp ac asgwrn cefn i asio'r holl gerddoriaeth yma at ei gilydd a phwy gwell na Tim Stuart. Yn siŵr fe ellir dweud fod ei gyfeilio yn gerddorfa yn ei hun. Mae Beryl a Tim wedi ac yn parhau i weithio fel tîm a dod a llawer o bleser i nosweithiau cerddorol y Dyffryn yma.

Yr unawdwyr eleni oedd Meinir Wyn Roberts (soprano) a Steffan Prys (Tenor). Mae Meinir yn wreiddiol o Gaernarfon ac yn unawdydd poblogaidd gyda Chymdeithasau Corawl ar draws y wlad ac ar hyn o bryd yn dilyn Cwrs Opera yn yr Academi Cerdd yn Llundain. Mae Steffan o Lanuwchllyn ac yntau yn prysur wneud enw iddo'i hun ac yn un mor gyfforddus yn canu mewn arddull Clasurol a'r Theatr Gerdd ac wedi cipio Gwobrau yn yr Eisteddfod Genedlaethol Y Fenni 2016 ac Ynys Môn 2017. Cafwyd gan y ddau unawdwr ddewis eang o ganeuon safonol a oedd yn dangos eu meistroldeb llwyr yn eu gwaith. 'Roedd eu perfformiadau llwyfan yn heintus a chartrefol ac felly yn mynnu a chael gwrandawiad o'r nodyn cyntaf.

Fe gafwyd clywed gan y Côr weithiau gan Don Besig (As Long as I have Music), Euros Rhys Evans (Salm 23), Eric Jones (Bendithia Dduw Y Noson Hon), (Y Tangnefeddwyr) a Richard Vaughan (Ave Maria). Fe ddaeth y Côr a'r Unawdwyr at ei gilydd ar ddiwedd y Cyngerdd i berfformio gwaith arall gan Eric Jones sef "Galwad y Gan" .

Fel sydd wedi digwydd mewn sawl Cyngerdd ar hyd y blynyddoedd gan y Gymdeithas Gorawl yma - maent wedi rhoi cyfle a llwyfan i amryw o leisiau a pherfformwyr newydd ac fe ddigwyddodd hyn eto eleni. Croesawyd Laura Embray (Ffidil) a Mackenzie Paget (Piano) y ddau wedi astudio yng Ngholeg Cerdd Manceinion a chafwyd ganddynt berfformiad o weithiau gan Brahms, Massenet a Kreisler. Mae Mackenzie yn wreiddiol o Gasnewydd ac eto yn dangos ei ddawn fel cyfeilydd piano a Laura yn ein syfrdanu ar sut oedd modd clywed cymaint o amrywiaeth o nodau ar y ffidil. Arbennig iawn.

Ar ddiwedd y noson dangosodd y gynulleidfa gref eu gwerthfawrogiad cynnes i'r oll a gymerodd ran yn y Cyngerdd - noson wych a diolch i bawb.

GLJ

# Cymdeithas Caledfryn



Geraint Lovgreen, y cerddor - gyfansoddwr a'r bardd oedd y gŵr gwadd yn y Cinio Blynyddol ym Melin Brwcws. Fe'i ganwyd ger Wrecsam ac addysgwyd ef yn y dref honno, yn y Drenewydd ac yng Ngholeg y Brifysgol, Aberystwyth ond mae'n byw ers blynyddoedd bellach yng Nghaernarfon lle mae'n gyfieithydd.

Cawsom ein diddanu ganddo wrth iddo ddarllen ei gerddi a chanu ei ganeuon i gyfeiliant ei allweddellau.

Roedd llawer o'i gerddi ysgafn, yn cynnwys ei limrigau, wedi eu cyfansoddi ar gyfer Talwrn y Beirdd. Cerddi crafog, hwyliog, yn llawn syniadau ffraeth oedd ganddo.

Mae Geraint yn arbennig hefyd am chwarae efo geiriau i greu hiwmor. Does ryfedd f od pawb yn glanha chwerthin wrth wrando arno'n darllen ei gerddi a rhai ohonynt yn rhai beiddgar hefyd!

Roedd ei ganeuon yn fwy difrifol na'i gerddi. Yn 'Hydref o Hyd' mae'n canu am ffrindiau fel Iwan Llwyd a Les Morrison sydd wedi'n gadael yn rhy gynnar. Canodd 'Nid Llwynog Oedd yr Haul,' Cân i Gymru 1982 ac un o ganeuon eiconig Geraint ac i gloi'r noson, be well na ffefryn llawer ohonom sef,'Yma Wyf Innau i Fod' ac er ei bod yn gân am Gaernarfon, mae'n gân am unrhyw dref sy'n agos at ein calon!

Cyflwynwyd ein gwestai gan Llifon, ein Llywydd, a diolchwyd iddo gan Richard, yr Is Lywydd. Roedd y pryd bwyd yn arbennig a braf oedd gweld perthnasau i Geraint yn mwynhau'r noson gyda ni ym Melin Brwcws. Noson hwyliog a chofiadwy.

**OS OES ANGEN COPI PRINT BRAS O'R BIGWN ARNOCH CYSYLLTWCH EFO BEDWYR AR 814497**

## Cymdeithas Gosod Blodau Dinbych

Croesawodd Doris bawb i'r noson ar Ebrill y 3ydd gyda chroeso arbennig i'r arddangoswraig Sionedd Hughes o Groesoswallt. Thema'r noson oedd "Troi'r Dail"

Cychwynnodd drwy blethu saith deilen Aspidistra yn gonsertina hir ac ynghyd â Gerbera gwyn roeddent yn cynrychioli Cannwyll y Pasg. Y gamp oedd dangos i ni sut y gellir newid siapiau'r dail.

Yr ail osodiad oedd plethiad o ddail y balmwydden gyda Amaryllis a Thegeirian. Helygen ddefnyddiodd ar gyfer y trydydd gosodiad i greu cylch gyda photeli gwydr ac amrywiaeth o flodau'r gwanwyn.

Plygodd ddail Fatsia, yn ei phedwerydd gosodiad, mewn siâp blodyn a'u gosod mewn cynhwysydd melyn gyda rhosod, antherediwm ac ati.

Gwnaed y gosodiad olaf mewn bocs paled gyda bwa wedi ei greu o ddail gwyrddion helygain ac amryw o flodau yn lliwiau'r gwanwyn.

Gwraig hynod o ddifyr oedd Sionedd gyda'i storïau a'i dawn; noson o fwynhad pur ddaeth a gwen i wyneb pawb.

*Margherita Jones*





Dydd Gwener Groglith cynhaliwyd taith o amgylch Dinbych gan aelodau Cytun drwy ddarllen rhannau o lyfr Marc, cychwynwyd tu allan i Sant Thomas ac ymlaen i Gae Fron Brook,Capel Mawr, Neuadd y Dref, Feryllydd Boots a gorffen yng ngerddi'r Castell.

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 9 | | 1 | | 3 | | | 7 |
| | | | | 9 | 2 | 4 | | |
| 1 | | 7 | | | | 6 | 9 | |
| | | | | 4 | | 5 | 3 | |
| 7 | 8 | 4 | | 5 | | 9 | 6 | 2 |
| | 1 | 3 | | 2 | | | | |
| | 5 | 6 | | | | 7 | | |
| | | 9 | 2 | 3 | | | | 6 |
| | | | 9 | | 6 | | 8 | |



Be ddaw o'r adeiladau ar ôl difrod tân arall.


# Tudalen y Plant


**Enwch a lliwiwch y blodau:**





**T______________________________** **Ll______________ y D______________**





**Rh_____________________________** **C______________ P______________**

**Cystadleuaeth Tudalen y Plant mis Ebrill – Lliwio llun Ŵy Pasg**

Diolch yn fawr iawn i'r 5 a wnaeth gystadlu. Gwaith lliwio gwych! Yr enillydd y tro yma ydi **Gwenno Lois Williams**. Da iawn ti, Gwenno – mae gwobr ar y ffordd.

# O lygad y storm

‘Does ‘na ddim byd gwaeth na pheswch sych, - gwaith diddim ac ofer ac nid yn aml y cewch chi fardd fyddai’n llunio cyfres o englynion i berson am besychu. ‘Chydig yn ôl, roedd Rhys Dafis o Lansannan yn rhyw fudr siopa ym Morrisons hefo’i wraig Sheila, ond ‘doedd o’n gwrando fawr ar yr hyn roedd hi’n ‘i ddweud chwaith, roedd ei sylw a’i fryd o ar rywbeth arall. Roedd o wedi dechrau gwrando ar y dyn ‘ma’n pesychu ac yn cydymdeimlo’n arw hefo’r creadur bach. Fel y deuai’r pesychwr yn nes sylweddololodd Rhys fod yno wraig yn ceisio cadw cow ar bethau, a phan fyddai’r gŵr yn cael pwl hegar o garthu’i wddw fe fyddai ‘na iaith go liwgar yn dilyn. Yna fe gai’r creadur flas ei thafod, ac fe glywai Rhys hi’n dweud, “Yli, os oes raid i ti regi, rhega’n ddistaw da chdi. Ti’m yn gwbod pwy sy’n gwrando ‘ochor arall i’r silffoedd ‘ma!” A dyna pryd ddaeth y ddau bâr wyneb yn wyneb - i gyfarch, ysgwyd llaw, jocian, rhoi ‘chydig o’r byd yn ei le - a phesychu, a diolch i’r drefn ni soniwyd gair am liw yr iaith ychydig funudau ynghynt.
Ymhen ychydig ddyddiau derbyniodd ‘Y Pesychwr’ yr englynion hyn oddi wrth rywun a alwai ei hun yn “O lygad y storm”. Ond, rydyn ni’n gwybod yn iawn pwy yw’r englynwr dawnus hwnnw, tydan ni Rhys!
Yn glustiau i gyd

## Morrisons, Dinbych – 23/03/2018

Ni’n dau yn siopa’n dawel ‘rhyd yr eil
i’r drol wrth y gornel,
ar orffen bron, dim ond mêl
cnau a madarach cyn ‘madel.

Ond ar y gair, bytheiriad eirias aeth
drwy’r siop. Daeth llond troliad
o eiriau glas gorau gwlad
rhwng mynych sych besychiad

o’r eil nesaf. Yna cafwyd hwrdd y gwynt,
a’r ddau gownter trymfwyd
yn ymyl a tswnamwyd
yn bell, gan ddychryn y bwyd.

Crynodd y macaroni ar y silff,
a’r reis oedd fel jelli’n
ymyl y lard. Yr Elm Lea
a drodd; surodd y sieri!

Ail fytheiriad, a’r hadog a neidiodd,
At y cod a’r eog;
fflipiodd, crimpiodd y crempog;
caled lwmp y siocled log!

Fy nhrol mewn ofn a roliodd at y wal;
llais y til lewygodd;
boi’r Deli a weddïodd,
ac i’r ffordd dan grio ffodd!

Tra ar stop y siop yn syn, yn holi,
dyfalu, sut goblyn?
wel rownd y gornel ar hyn
â’i iaith bur y daeth Berwyn!

O lygad y storm

## *Pwy ydi hwn - Rhifyn Mis Ebrill*

*Gan nad oedd neb wedi ymgeisio’n llwyddiannus ar gyfer y gystadleuaeth hon, bydd yn cael ei hymestyn am fis arall.*
*Atebion ar bapur ym Mocs y Bigwn yn y llyfrgell (cofiwch roi eich enw a rhif ffôn) neu i’r cyfeiriad e-bost sef ybigwn@hotmail.co.uk*









**Atebion Croesair Ebrill 2018**

**Ar Draws :** 1. Goleudai 5. Radiws 9. Breichled 10. Carrai 11. Eurfelyn 12. Henoed 14. Stondinwyr 18. Milfeddygol 22. Eisiau 23. Titaniwm 24. Ionawr 25. Trydanwr 26. Drycin 27. Ysgariad

**I Lawr :** 1. Gobled 2. Loetro 3. Uwchben 4. Aberystwyth 6. Academig 7. Isreolwr 8. Seindorf 13. Ansoniarus 15. Amseriad 16. Elusendy 17. Cenadwri 19. Taldra 20. Simnai 21. Ympryd

## CROESAIR MAI 2018



**AR DRAWS**

7. ee Glan Clwyd neu Twm o’r Nant
8. Rydych yn ceisio datrus un o’r rhain rwan!
9. Anhapus
10. Tref yng Ngogledd-Ddwyrain Cymru
12. Gwneud yr un sain
13. Dirmyg
15. Cywir a di-ddadl
17. Mis
18. Pentref ar yr A5
19. Pentref yng Ngwynedd (1,4)
20. Imperialaidd
22. Perlysieuyn
24. Un sy’n perthyn ee i glwb
25. Eithriadol o rewllyd
26. Gronynnau ar draeth

**I LAWR**

1. Abaty yng Ngheredigion (6,4)
2. Ardal wlyb iawn
3. Urdd yn rhannu’r un diddordebau
4. Offeryn optegol
5. Bu cylchgrawn gyda’r enw hwn
6. Yn ymwneud â rheolau iaith
11. Wedi colli teimlad, efallai oherwydd anaf
12. Ymroddedig
14. Swyddogol
16. Cynlluniau yn y meddwl
21. Teclyn
23. Plu o ddŵr rhewllyd

**BAG Y BIGWN**

**Diolch yn fawr am eich cefnogaeth**

| | |
|---|---|
| Eirwen Evans Cysgod Y Graig | £ 5.00 |

# Gwenda Owen o Rhuthun yw enillydd Tlws John a Ceridwen Hughes Uwchaled 2018

Urdd





Gwenda Owen o Rhuthun, Sir Ddinbych gafodd wybod dros y penwythnos diwetha ei bod wedi ennill Tlws John a Ceridwen Hughes Uwchaled eleni. Gwobr sydd yn cael ei rhoi yn flynyddol i gydnabod cyfraniad sylweddol i fywyd ieuenctid Cymru.

Cafodd wybod ei bod wedi ennill y wobr wedi i griw teledu droi i fyny i'w gweld yn Eisteddfod Rhanbarth Dinbych yn Ocsiwn Amaethyddol Rhuthun ar ddydd Sadwrn 17eg o Fawrth.

Cyn-athrawes a phennaeth ysgol yw Gwenda, sy'n fam i dri o fechgyn, ac sydd yn derbyn clod am ysbrydoli cannoedd o blant a phobl ifanc gogledd Cymru. Yn ystod yr 80au a 90au, tra'n athrawes yn Ysgol Gynradd Pentrecelyn, Rhuthun bu'n hyfforddi unigolion ac yn sgriptio a llwyfannu caneuon actol, cyflwyniadau dramatig a phartion llefaru llwyddiannus gan helpu'r ysgol i gipio nifer sylweddol o wobrau mewn Eisteddfodau.

Wedi ei phenodi yn Bennaeth Ysgol Llandrillo, ger Corwen parhaodd yr ymroddiad, gan arwain yr ysgol i lwyddiannau lu mewn Eisteddfodau cylch a sir. Bu hefyd yn feirniad llefaru mewn sawl Eisteddfod gylch a sir, ac yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Sir y Fflint 2016. Am nifer o flynyddoedd hi oedd trefnydd/ysgrifennydd Pwyllgor Cylch Edeyrnion, a bu'n cefnogi ysgolion a chymunedau ar hyd a lled Sir Ddinbych wrth greu sgriptiau ffraeth a chyfoethog ar gyfer ymgomau hynod lwyddiannus.

Dywedodd ei mab Dyfan Phillips, a enwebodd ei fam ar gyfer y wobr "*Fel rhiant, fe ysbrydolodd mam tri o feibion i ddilyn ei esiampl i fod yn athrawon brwdfrydig tuag at addysg plant, tuag at yr Urdd a thuag at dyfodol addysg cyfrwng Cymraeg. Mawr yw ein dyled iddi.*"

Dywedodd Sian Lewis, Prif Weithredwr Urdd Gobaith Cymru, "*Cyfle yw Gwobr John a Ceridwen Hughes i roi cydnabyddiaeth a diolch i unigolyn sydd wedi rhoi o'u hamser i gefnogi ieuenctid Cymru, drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r Urdd fel sefydliad yn gweld y gwaith ardderchog a'r ymroddiad sydd yn digwydd gan fyddin o unigolion led-led Cymru o ddydd i dydd ac o wythnos i wythnos. Hoffwn ddiolch o waelod calon i Gwenda am ei holl waith caled dros y blynyddoedd yn cefnogi ieuenctid ardal Sir Ddinbych a'r cylch ehangach i wireddu eu breuddwydion, llongyfarchiadau calonog ar ran holl aelodau'r Urdd!.*"

Caiff Tlws John a Ceridwen Hughes Uwchaled ei rhoi gan Dewi a Gerallt Hughes, er cof am eu rhieni John a Ceridwen Hughes oedd yn weithgar iawn ym maes ieuenctid. Bydd yn cael ei chyflwyno mewn seremoni arbennig yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Brycheiniog a Maesyfed ar Faes y Sioe, Llanelwedd ddiwedd mis Mai.




Morgeisi
CARTREF
Mortgages

**Cyngor Morgais Di-Ffi**
Cynnyrch y Farchnad Gyfan ar gael
Gwasanaeth Dwyieithog
Symud Tŷ | Prynu | Ailforgeisio

Gwasanaeth Proffesiynol, Gonest a Chyfrinachol

Ffoniwch neu E-bostiwch Rhodri Sellers
0782 8824596 Rhodri@cartrefmortgages.co.uk





**MODURON Y GRAIG**
Gorsaf Profion M.O.T.
(dosbarthiadau 3,4 a 7)
Atgyweirio ceir a thractorau
Iard y Graig, Ffordd y Graig,
Ffôn:01745 815606
550337 / 550512(cartref)

# Peidiwch â'n galw ni'n hen!

"Ydach chi'n hoffi cerddoriaeth?"
Dyna oedd cwestiwn y meddyg pan oedd gwraig oedrannus o'r dref hon ar fin derbyn llawdriniaeth go ddifrifol.
" Ydw," oedd ei hateb.
" Pa gerddoriaeth hoffech ei glywed?"
" Status Quo."
A dyma'r tîm meddygol yn chwarae "Rockin All Over the World" iddi ac un o'i thraed hi'n mynd i guriad y gerddoriaeth roc yn ystod y driniaeth.
Wrth iddi adrodd yr hanes inni gyda gwên ar ei hwyneb, ychwanegodd fod un o'r meddygon yn ei hatgoffa o'r Tom Cruise ifanc. " Dishy" oedd ei gair hi amdano.
Sgwn i faint ohonoch chi'r darllenwyr ymatebodd gyda'r sylw "Waw" i'r enw hwnnw?
Oedd y wraig ifanc ei hysbryd hon yn eithriad? A fyddech chi wedi disgwyl iddi ofyn am rywbeth mwy clasurol neu barchus neu emyn hyd yn oed?
Ddylech chi ddim wyddoch chi o gofio bod yna dros drigain mlynedd ers canol y pumdegau pan wnaeth diwylliant poblogaidd gydnabod bodolaeth pobl ifainc yn eu harddegau, ac mi roedd **hi** yn ei harddegau yr adeg honno.
Felly os ydach chi dros 75 mlwydd oed mae yna siawns dda eich bod chi yn rhan o'r chwyldro yn eich esgidiau trwynau main a'ch sodlau stileto. Meddyliwch am y peth. Ia, chi yn rebel. Anghredadwy!
Faint o ddarllenwyr hŷn **Y Bigwn** gafodd eu cyhuddo o wrando ar rwtsh gan eu rhieni wrth iddyn nhw wrando ar **Radio Luxembourg, Juke Box Jury** neu **Six Five Special?**
Oedd gennych chi boster o Elvis neu Cliff, Billy Fury nau Marty Wilde ar wal eich llofft? A beth am Alma Cogan, Helen Shapiro a Dusty Springfield?
A chithau sydd ychydig bach yn iau, a oeddech chi yn mynd gyda'ch chwe swllt ac wyth geiniog i un o'r siopau recordiau ac yn prynu'r sengl ddiweddaraf gan y Beatles neu'r Tremeloes ar ôl clustfeinio ar y gerddoriaeth yn y cwt bach neu'r *booth*?
Roedd hi'n ail hanner y chwedegau cyn i ganu Cymraeg ddechrau codi'i sgert, ond fe lwyddodd Y Pelydrau i gyrraedd brig y siart ddwyieithog yn nhref Caernarfon gyda Lawr ar Lan y Môr. Tu ôl iddyn nhw roedd rhes o'r grwpiau Saesneg mwyaf poblogaidd. Camp arbennig.
Fel y dywedodd Delwyn Siôn " Ond doedden nhw'n ddyddiau da".
Diddorol fyddai gwybod pwy oedd eich arwr/arwres chi hanner can mlynedd a mwy yn ôl. Sgwn i a oes gennych chi o hyd luniau neu fathodynnau o'r dyddiau hynny?
Peidiwch â bod yn rhy swil. Gadewch i mi wybod.
Ac efallai bod rhai ohonoch yn hoff o'r to presennol? Ystyriwch yn ofalus wrth ddefnyddio'r term to presennol. Cofiwch fod ambell un wedi bod yn canu ers dros ddeng mlynedd ar hugain a mwy, ac yn dal i ganu.
Beth am Beyoncé neu Adele? Alys Williams, Georgia Ruth neu'r Candelas?
A beth amdanoch chi'r bobl ifainc? Ydach chi'n hoffi cerddoriaeth y chwedegau, y saithdegau neu'r wythdegau? Beth am Motorhead, Black Sabbath, Led Zeppelin, Suzy Quatro, Meic Stevens, Edward H. Dafis neu Sobin a'r Smaeliaid?
Ydy'ch rhieni chi wedi bod mor ddigywilydd a hy' â'ch cyhuddo chi o wrando ar rwtsh? Beth oedden nhw'n wrando arno – Duran Duran neu'r Spice Girls?
Oes gennych chi nain neu daid sy'n cŵl o ran cerddoriaeth? Oes yna stori ddiddorol am ambell un?
Gadewch imi wybod. Dyma'ch cyfle i daro'n ôl neu ddangos pa mor ffodus ydach chi.


## YSGOL MAES GARMON

Ydych chi yn graddio eleni ac heb dderbyn swydd eto?
Oes gennych chi ddiddordeb mewn addysg ac awydd ennill profiad ar lawr dosbarth?
Neu, oes gennych chi sgiliau mathemateg cryf ac yn teimlo gallwch chi gefnogi disgyblion i ddatblygu yn y pwnc?
Mae cyfleodd cyflogedig ar gael yn Ysgol Maes Garmon ar gyfer Medi 2018 neu yng nghynt.
Cysylltwch gyda Mrs Bronwen Hughes, Prifathrawes Ysgol Maes Garmon ar 01352 750678, neu ebostiwch
Swyddfa@ymg.siryfflint.sch.uk



# Tecaf fro, bro mebyd
# Frank y Berllan (1920 – 1975)


Er mai Frank Price Jones oedd ei enw bedydd, fel Frank y Berllan yr adnabyddid ef orau yn Ninbych. Fe'i ganwyd yn ffermdy bach Y Berllan ar ochr ddwyreiniol Lôn Bostws y tu ôl i'r gyfnewidfa deliffon bresennol, yn fab i'r Preis Jones. Er ei fod yn ffermio gryn dipyn - cadw tua dwsin o wartheg godro oedd yn pori yn y caeau odisaf i Ysgol Hywel, ac angen eu gyrru nôl a blaen ddwywaith bob dydd ar gyfer eu godro, ei brif alwedigaeth oedd hurio allan cerbydau fel y gwelir yn y bil yma.

Yn dilyn ei addysg yn ysgolion Frongoch, Lyf Lôn a'r Ysgol Sirol yma yn Ninbych, heb anghofio'r dylanwad Y Capel Mawr a'r gweinidog, y Parch J.H. Griffiths, M.A., arno, aeth Frank ymlaen i Goleg y Brifysgol ym Mangor lle graddiodd mewn Hanes. Yna, yn ôl ei gred basiffistaidd, cofrestrodd fel gwrthwynebydd cydwybodol a cheisiodd ymuno ag un o'r gwasanaethau amddiffyn ond fe'i gwrthodwyd am resymau meddygol. Am bedair blynedd felly bu'n cynorthwyo'i dad gyda'i fusnes llefrith yn y dref.

Yn ddigon naturiol, â nifer o fechgyn lleol wedi'u clwyfo neu'u lladd yn y rhyfel, 'doedd Frank ddim yn boblogaidd iawn a bu rhaid iddo ddioddef sawl cyhuddiad niweidiol. Yn ystod y cyfnod yma, fe gynhaliodd ddosbarthiadau i'r W.E.A. yma yn Nyffryn Clwyd ac fe fagodd flas at y gwaith. O ganlyniad, am ddwy flynedd, bu'n athro Hanes yn Ysgol Brynhyfryd, Rhuthun cyn mynd yn ddarlithydd yn Adran Efrydiau Allanol ei hen goleg ym Mangor.

Gyda'i ddiddordeb cynyddol mewn Hanes Lleol, aeth ati ym 1961 i gyhoeddi Crwydro Dwyrain Dinbych ac yna, ym 1969, Crwydro Gorllewin Dinbych, y ddwy gyfrol yn rhan o'r gyfres boblogaidd, Crwydro Cymru. Braidd yn annisgwyliadwy oedd eu derbyn yn y drefn hon ag ystyried ei frwdfrydedd dros ei ardal ei hun. Sut bynnag, heb unrhyw amheuaeth, y rhain yw'r cyfraniadau disgleiriaf yn y gyfres.

Gan ei fod eisoes wedi cyhoeddi, 'The Story of Denbighshire through its Castles' (ar gyfer ysgolion) a Thomas Jones (o Ddinbych) y Diwinydd, yr oedd yn hen gyfarwydd â'r grefft o ymchwilio a hefyd sut i gyflwyno ei waith mewn modd ddiddorol. Ef hefyd, erbyn hyn oedd Golygydd Trafodion Hanes Sir Ddinbych ac yn bendant, ei edmygedd o Thomas Gee a'i Wasg a'i hanogodd i gynhyrchu'i


TELEPHONE 44.
BRANCH AT BRYN DINAS HOTEL, ST. ASAPH.
BERLLAN, DENBIGH,
March 12th 1934
M
HEARSE & MOURNING COACHES
Dr. to PRICE JONES,
HORSES & CARRIAGES FOR HIRE ON REASONABLE TERMS PIC-NIC PARTIES, &c.

To Chairman & Highway Committee
I am willing to carry on with horse & cart as usual at 12/- a day and 7/- cart.
Yours truly
Price Jones

golofn boblogaidd yn Y Faner - Dyddiadur Daniel. I mi wrth gwrs, trigolion Dinbych, y bennod olaf yn Crwydro Gorllewin Dinbych, tudalennau 223 hyd 266, yw uchafbwynt ei gynhyrchion llenyddol. Rhywsut, wedi eu darllen mae'r awydd yn codi i droedio'r hen lwybrau gyda'r awdur a sawrio'r blasau hanesyddol sy'n tarddu mor naturiol ohonynt. Yn ôl y disgwyl efallai, mae'n gorffen ei daith yn Y Berllan, ei hen gartref ac meddai, "Dinbych a ddaw i'm meddwl pan glywaf y gair 'gartre',"

Biti garw na chafodd Frank Price Jones, ac yntau yn ei fedd yn ddim ond 55 oed, a chyda'i ddoniau amlwg mo'r cyfle i ychwanegu at ei gyfraniadau printiedig fel ein bod ninnau, ddeugain mlynedd a mwy ymlaen, yn gallu elwa o'i allu.

*R.M (Bobi) Owen*






Gwefr heb Wifrau

# AMGUEDDFA RADIO

Dilynwch ni ar

Traddodwyd Darlith Goffa David Edward Hughes eleni gan ein Curadur, David Crawford. 'Technoleg y Gramoffôn a Datblygiad y Record 78RPM' oedd ei destun a chyflwynodd gipolwg ar ddatblygiad recordio sain y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif. Soniodd am y Cyfnod Acwstig, 1880-1925, pan ddyfeisiodd Thomas Edison ac Alexander Graham Bell recordiau silindr, ac, yn hwyrach, dyfeisiodd Emile Berliner recordiau fflat. Roedd y recordiau silindr yn well yn dechnolegol na'r rhai fflat, ond roedd hi'n bosib cynhyrchu cannoedd o gopïau ar y tro o'r rhai fflat, a dyna pam y llwyddon nhw ar draul y silindrau. Cawsom wrando ar gerddoriaeth glasurol ar record 78RPM ar gramoffôn HMV, roedd Dvid wedi ei weindio i fyny ynghynt.



Yn 1925, dechreuwyd recordio yn drydanol, a dyma ddechrau'r Cyfnod Trydanol, 1925-1960. Dechreuwyd recordio cerddoriaeth i gydfynd â ffilmiau sinema ym Mhrosiect Vitaphone ac, yn hwyrach, datblygwyd recordiau finyl. Dyfeisiodd Alan Blumlein recordiau stereo ac mae'r dechnoleg hon yn dal i gael ei defnyddio heddiw. Oeddech chi'n gwybod mai 'Nipper' oedd enw'r ci a ddefnyddiwyd i hysbysebu recordiau His Master's Voice?



Diolchodd David i'r gynulleidfa am eu cefnogaeth a alluogodd yr Amgueddfa i brynu taflunydd newydd.

Fel y gwelwch yn y llun nesaf, mae Martyn, ein gwirfoddolwr newydd, yn gweithio i adfer hen radio Osram Music Magnet Three. Cynhyrchwyd y radio yma tua 1929 fel pecyn o gydrannau ynghyd â chyfarwyddiadau, ar gyfer yr amatyr. Cyflwynwyd y radio arbennig hwn i'r Amgueddfa gan Geraint o Ogledd-Orllewin Lloegr a ymwelodd â Stondin Gwefr heb Wifrau yn Eisteddfod Genedlaethol Dinbych 2013. Hyderwn y bydd Martyn yn llwyddo i'w gael i weithio unwaith eto!



Croeso cynnes i bawb i'r darlithoedd nesaf yn ein cyfres, a gynhelir yn yr Amgueddfa am 7.00 y.h.:
**Mai 18fed**, "Mwyngloddio yng Ngogledd-Ddwyrain Cymru", gan Alan Jones.
**Mehefin 15fed**, "Darlledu yng Nghymru", gan Ifor ap Glyn.
**Mehefin 22ain**, yn Gymraeg, "Effeithiolrwydd a Diogelwch Meddyginiaethau", gan yr Athro Dyfrig Hughes.
Bydd ein Bore Coffi a Stondin Blanhigion eleni ar **Fehefin 2ail** yn Eirianfa, 10.00-12.00, pan fyddwn yn cydweithio â **Mind Dyffryn Clwyd** ac **Amgueddfa Dinbych.**

# Pennod newydd cyffrous i Lyfrgell a Siop Un Alwad Dinbych

Mae Llyfrgell a siop Un Alwad Dinbych bellach wedi ei adleoli dros dro yng Nghanolfan Eirianfa, Dinbych oherwydd gwaith adnewyddu sydd yn digwydd yno.
Yn dilyn cais llwyddiannus am grant o £120,000 gan Lywodraeth Cymru, mae cynlluniau i adnewyddu a moderneiddio Llyfrgell a Siop Un Alwad Dinbych bellach wedi dechrau ac rydym yn edrych ymlaen yn eiddgar i'r adeilad gael ei agor ar ei newydd wedd tua mis Mehefin/Gorffennaf.
Mae'r gwaith yn cynnwys gwaith ailaddurno helaeth i greu gofod deniadol, agored a hyblyg ar gyfer gwasanaeth llyfrgell a siop un alwad cyfoes.
Hoffai'r Cyngor ddiolch i bawb am eu hamynedd a'u cefnogaeth a chydweithrediad yn ystod y gwaith.

SIOP CLWYD
33 STRYD FAWR
DINBYCH
01745 813431
Llyfrau,Cardiau
Casetiau
Crynoddisgiau
a Chrefftau

**Talwrn y Beirdd** Cafwyd cystadleuaeth dda ac agos rhwng timau Hiraethog a'r Tir Mawr yng Nghanolfan Iaith Clwyd, Popeth Cymraeg, yn ddiweddar. Y Tir Mawr o Ben LLŷn yw tîm gorau'r gogledd ers blynyddoedd, a nhw enillodd - ond o un marc yn unig!

**Hysbyseb ar gyfer Gemau'r Gymanwlad**
Traeth Euraid: rhaid parêdio doniau gwâr
dynion gwyn di-guro.
Heb 'r un Arab nag Abo,
yn ddi-fraw, dowch draw am dro.
Eifion Lloyd Jones

**Cwpled caeth yn cynnwys y gair "clic"**
Ar ôl nosi, clic y clo
Sy'n sydyn ei arswydo. Glyn Jones

**Limrig** yn cynnwys: '**Anghofiais i dsiecio'r dyddiadur**'
Anghofiais i dsiecio'r dyddiadur
oherwydd fy mod i mor brysur:
dwi yn rwla o hyd
yn cyflawni dim byd -
sy'n hyfryd, neu 'faswn i'n segur.
Gwenan Prysor

**Cywydd 'Ymgyrch**
Dyn wyf am gadw'n ifanc;
meddu llam a meddwl llanc.
Felly ces ffics Elixir,
a bath mwd yn boeth, am hir;
stwytho, cwyro'r cyhyrau; -
nofio wnes fy hun yn iau.
Yoga brwd, a magu brôn,
a secs, a liposycsion,
i wneud hync... Ond gwn, tu ôl
y llun *t-cut* allanol
o'r cawr â'i nerth a'r croen iach,
rwyf yn refio'n arafach. Rhys Dafis

**Pennill ymson llygoden Ffrengig**
Bu'n fordaith braf ar Brutania
cyn sôn am y mynydd iâ;
doedd Dave ddim 'di'i weld o'n dwad,
er bod Nigel yn bygwth Ta-ta!
Teresa a darodd y Brecshit
tra bo Boris yn gwenu'n slei;
ond dwi am nofio'n ôl adra
cyn i'r llong 'ma suddo'n y cei.
Eifion Lloyd Jones

**Englyn: Ffatri**
Er rhoi'n ddi-dor o'i gorau, ar ôl traul
troi yr holl flynyddau,
rhy hen yw ei pheiriannau dadfeiliog;
yn drugarog daw'r Perchennog i'w chau.
Rhys Dafis

**Cân ysgafn: 'Yr Eira Mawr'**
Eira mân yn eira mawr:
Cwrlid gwyn ar hyd y llawr;
Mam yn llithro ar ei thîn,
Pawb yn tŷ yn ista'n flin.

Mae'n dawel a dim cynnwrf 'chwaith -
Dim ysgol; methu mynd i'r gwaith.
Sut all bywyd fynd ymlaen
Heb ddim wi-fi? Diawl o straen.

Methu mynd, does neb a ddaw;
Codi saith a gwely naw.
Mewn carchar oer rhaid cadw'n glyd
A derbyn pa mor wyn ein byd.

A'r trydan wedi mynd i ffwrdd,
Rhaid chwarae cardiau wrth y bwrdd;
Siarad, sgwrsio a chwerthin braf -
Atgofion melys hirddydd haf.

Unwaith cilia'r cwrlid gwyn,
Fe ddown yn ôl i drefn ar hyn,
A chawn roi'r gorau i fyw'n gytûn -
Caiff pawb fynd 'nôl i'w fyd ei hun.
Gwenan Prysor

**Telyneg: Llithro** *(cofio Meic Povey, cyfoed ysgol)*
Yn gaeth i gyffuriau'i glwyf,
rhwng muriau cell y cof
llithra'r llwyd yn rhithiau lliw...
concrid Pontcanna
yn ddolydd Nant Gwynant
a bwrlwm direidi'r brodyr
fu'n gloywi Aberglaslyn.

Ond bu'n gaeth erioed...
i anwes Eifionydd,
lle bu mam a'i theulu
yn wylo am fab a brawd;
i iaith goeth Y Gegin,
lle bu Yr Hen Blant
yn creu Diwedd y Byd;
i'r Gymru Gymraeg,
lle bu 'Nel' a 'Now' a 'Les'
yn gwarchod y gwreiddiau.

Try mur y gell yn sgrîn
i weld a chlywed a theimlo
gwynt traed y meirw
yn gwannu trwy Nant Gwynant
yn chwalu set yr aelwyd,
yn pylu parablu'r plant
a diffodd canhwyllau'r sêr.
Eifion Lloyd Jones

# Talwrn y Beirdd o Ganolfan Iaith,Dinbych



Tîm Hiraethog - Eifion Lloyd Jones, Rhys Dafis a Gwenan Prysor



Tîm Tir Mawr - Gareth Jones, Carys Parry, Myrddin ap Dafydd a Huw Erith



Meurin Ceri Llwyd a Gwenan

## HEN LUNIAU

Os oes gennych hen luniau ac yn dymuno eu rhannu gyda darllenwyr y Bigwn, o'ch teulu, cymdogion neu ffrindiau o'r ardal anfonwch ar ffurf ebost at ybigwn@hotmail.co.uk ac fe roddwn un llun bob mis yn Y Bigwn. Os yn bosib, byddai enwau, digwyddiad neu yr achlysur yn help i bawb adnabod y llun.

**"Cefnogwch Hysbysebwyr Y Bigwn"**




**BROOKHOUSE MILL**

Bwydlen á la carte, cinio, a chinio dydd Sul
Priodasau, dyweddïad, penblwydd, bedydd
Agored 7 diwrnod yr wythnos a thrwy'r dydd ar y Sul
Ffôn: 01745 813377



Annwyl Olygydd,

Ymddangosodd lun yn rhifyn Y Bigwn, Chwefror 2018 o ddosbarth babanod, Ysgol Sul Y Capel Mawr, hoffwn ychwanegu rhagor o hanes tu cefn i'r llun.

Fel gwerthfawrogiad o wasanaeth Miss Roberts i'w dosbarth, fe gyflwynodd rieni'r disgyblion pedwar darn o offer te iddi. (Gweler y llun islaw). Roedd yr offer ym meddiant Miss Ceinwen Jones, sef nith Miss Dryhurst Roberts.

Mae Miss Jones yn ei nawdegau a phan symudodd yn 2016 o'r ardal i Sir Gaer i fyw, roedd yn awyddus i gyflwyno'r anrheg yn ôl i'r capel. Diwedd y siwrne oedd Archif Cymunedol Dinbych - fe dderbyniodd yr Amgueddfa yr offer ym mis Ionawr 2016.

Gobeithio bod hyn o ddiddordeb i chwi.


Lywena Ashton




Huw yn llofnodi copiau o'i lyfr cartwnau yn Siop Clwyd



# Pwy 'di pwy yng Nghlwb Pêl-droed Dinbych? Clwyd Williams, Llywydd y clwb.



Mae 'Clw Bach', fel y caiff ei adnabod, yn 65 mlwydd oed, wedi'i eni a'i fagu yn Ninbych ac yn briod i Olwen. Mae ganddyn nhw ddau o blant, Zoe a Gareth, yn ogystal â phedwar o wyrion ac wyresau.
Ers 47 o flynyddoedd bellach, mae Clwyd wedi bod yn gweithio i Gyngor Sir Ddinbych fel Swyddog Llywodraeth Leol, tra hefyd yn gweithio fel Arweinydd Clwb Ieuenctid am 33 o flynyddoedd. Bydd yn ymddeol o'r rolau hyn ym mis Mai eleni a fydd yn newid enfawr i berson mor brysur â Clwyd. Gofynnom ni i Clwyd os oedd o'n ofni ymddeol a dywedodd, "Dydw i ddim yn siŵr, ond gobeithio y bydda i'n iawn. Mae gen i ffrind sydd wedi ymddeol hefyd ac rydyn ni'n gwneud dipyn o bethau yn yr awyr agored fel beicio a cherdded."

Mae Clwyd wedi cadw ei hun yn heini erioed, a phob penwythnos, mae'n beicio gyda'i ffrind o Ddinbych i Langwyfan a pharhau wedyn at dop mynyddoedd Clwyd cyn beicio ar eu traws yn ôl drwy Fodfari ac adref i Ddinbych, a hynny i gyd o fewn tair awr!

Bu pêl-droed yn rhan fawr o'i fywyd erioed, ac yn ystod ei ddyddiau ifanc, roedd yn chwaraewr canol cae adnabyddus dros Ogledd Cymru. Gofynnwyd iddo pryd chwaraeodd i Ddinbych gyntaf; "Cefais fy newis i chwarae i'r tîm cyntaf gan y rheolwr Gordon Gunson pan oeddwn i'n 16 oed. Dilynwyd Gunson gan John Trefor Roberts a buom ni'n llwyddiannus wrth ennill teitl cynghrair a chwpan Adran 1 Wrecsam sawl gwaith. Symudais i chwarae i Gaernarfon gan ennill teitl Cynghrair Cymru yna wedi hynny, chwaraeais i'r Rhyl a Bae Colwyn."

Wedi ei ddyddiau fel chwaraewr, daeth yn rheolwr ar y tîm cyntaf, yr Ail dîm, a'r Trydydd cyn cael ei wahodd i fod yn aelod o'r Pwyllgor. Yn y gorffennol, bu'n Ysgrifennydd (ddwywaith), Is-gadeirydd a Chadeirydd, ac mae bellach yn dal un roliau uchaf, sef Llywydd ein clwb.

Ar ddyddiau gêm, mae Clwyd bob amser i'w weld, ac mae'n un o'r gwirfoddolwyr hynny na fyddai'r clwb yn gallu goroesi hebddynt. Boed yn stiwardio neu'n brwsio'r ystafelloedd newid ar ôl y gemau, Clwyd yw'r olaf i adael gan sicrhau fod pob man yn ddiogel. Wedi hynny, mae'n mynd a chitiau'r tîm cyntaf, yr Ail Dîm a thîm Denbigh Development adref gyda fo i'w wraig, Olwen, a'u golchi yn barod at y gemau nesaf. Ymdrech deuluol arbennig yw hwn ac mae'r clwb wir yn gwerthfawrogi eu gwaith a'u hamser.

Gofynnwyd iddo ba newidiadau oedd o wedi eu gweld yn y Clwb dros y blynyddoedd diwethaf; "Mae'r newidiadau i'r maes ei hun yn ddiweddar yn anferth - y goleuadau, y maes parcio, y stand sefyll a'r stand newydd. Wrth edrych i'r dyfodol, hoffwn weld y Clwb yn gwneud mwy o ddefnydd o'n chwaraewyr ifanc a thalentog gan eu gweld yn y tîm cyntaf yn amlach."
Yn ystod y tymor 2016/17, cyflwynodd Bob Paton, sef Cadeirydd ac Is-lywydd Cynghrair Huws Gray Cymru a Llywydd FA Arfordir Gogledd Cymru, tlws i Clwyd yn cydnabod ei waith a'i wasanaeth arbennig i bêl-droed yng Ngogledd Cymru.

Mae'r Clwb yn ffodus iawn ac yn hynod ddiolchgar i Clwyd am ei waith caled dros y blynyddoedd ac rydym yn dymuno'n dda iddo yn ei ymddeoliad - a fydd yn rhoi mwy o amser iddo dreulio gyda'i dîm annwyl, CPD Dinbych.


CYFREITHWYR
SwayneJohnson
SOLICITORS

**Gwasanaethau i Chi**
- Trawsgludo – Symud Tŷ a Materion Eiddo Preswyl
- Landlord a Thenant
- Cyfraith Teulu
- Ewyllysiau, Ymddiriedolaethau ac Ystadau
- Llys Gwarchod a Phwerau Atwrnai
- Cynllunio Ffioedd Cartrefi Gofal
- Cynllunio Treth
- Cyfraith Elusennol ac Eglwysig
- Cyfreitha Sifil, Anghydfodau ac Hawliadau
- Cyfraith Cyflogaeth

**Gwasanaethau ar gyfer eich Busnes**
- Cyfraith Amaethyddol
- Ffurfiant Busnes a Chwmnïau a Corffori
- Strwythurau Busnes a Phartneriaethau
- Eiddo Masnachol – prynu a gwerthu
- Cyfraith Cyflogaeth
- Eiddo Deallusol
- Cartrefi Gofal
- Cyfraith Elusennol ac Eglwysig
- Diwydiant Hamdden – Parciau Gwyliau a Carafanau, Gwestai a Cyfraith Trwyddedau

2 Sgwâr y Neuadd, Dinbych, LL16 3PA
01745 812835
www.swaynejohnson.com cyfraith@swaynejohnson.com
**Y Cyfreithwyr Arbenigol yng Nghalon eich Cymuned**
Hefyd yn Rhuthun, Llanelwy, Llandudno, Bangor a Tattenhall

# Clwb Pêl-droed Dinbych

Gwelwyd perfformiadau arbennig gan Dîm Cyntaf Dinbych yn ddiweddar wrth iddynt ennill eu pedwar gêm ddiwethaf heb adael gôl i mewn, sy'n eu gosod nhw yn y drydydd safle yng Nghynghrair Huws Gray Cymru gyda thair gêm yn weddill i chwarae. Mae Caernarfon wedi eu coroni yn bencampwyr o'r gynghrair, ond, os yw Dinbych yn ennill eu gemau nesaf, byddant yn gallu cyrraedd yr ail safle - y safle uchaf erioed yn eu hanes.

Rhai canmol gwaith caled y tîm hyfforddi ifanc dan y rheolwr Eddie Maurice-Jones, yn 28 oed, gyda llygad da am dalent newydd ac sy’n uchel ei barch gyda'i chwaraewyr. Caiff ei gynorthwyo gan Richard Williams-Cooke, cyn-chwaraewr a chyn-reolwr i CPD Dinbych, yn ogystal â Dewi Llion sy'n Hyfforddwr Trwydded A UEFA a Dan Reece sydd hefyd yn hyfforddwr i dimau Ieuenctid Connahs Quay Nomads a fydd yn gadael y clwb eleni i helpu i sefydlu Academi Pêl-droed i CPD Lerpwl yn Tsiena.

Y fuddugoliaeth gyntaf o bedair oedd 2-0 yn erbyn Caersws oddi cartref. Dilynwyd hyn gyda gêm gyffrous yn Central Park ble curodd Dinbych Borthmadog gyda Craig Pritchard yn sgorio'r gôl i ennill y tri phwynt. Dyma gêm oedd wir yn profi cyffro pêl-droed Cymru. Cafwyd ymweliad i Wrecsam i chwarae Queen's Park a buddugoliaeth o 3-0 gyda Pritchard yn sgorio dwy gôl ar ei ben-blwydd yn 21ain oed a Dan Sullivan yn sgorio'r llall.
Yna, daeth y gêm roedd pawb wedi bod yn aros amdani. Dinbych v Rhyl. Dyma'r tro cyntaf i Ddinbych chwarae gêm gartref gynghrair yn erbyn Rhyl mewn 27 tymor. Unwaith eto, Pritchard a sgoriodd y gôl fuddugoliaethus o flaen torf enfawr ar noson hyfryd o wanwyn.

Heb os, Pritchard yw chwaraewr y tymor i Ddinbych ac sydd hefyd yn ffefryn gan y cefnogwyr. Mae ganddo reolaeth wych o'r bêl a’i uchder byr yn golygu ei fod yn hunllef i amddiffynwyr ei daclo, er yn aml, mae'n derbyn sawl tacl milain gan amddiffynwyr rhwystredig. Mae ganddo lwyth o egni a bydd rhaid i Ddinbych weithio'n galed i'w gadw'r tymor nesaf gan fod sawl clwb yn barod wedi dangos diddordeb ynddo.
Mae gemau'r Ail Dîm yn llusgo tua'r diwedd wedi i sawl gêm gael ei ohirio o ganlyniad i'r tywydd gwael ac amryw o resymau eraill. Cawson nhw fuddugoliaeth o 5-2 yn eu hunig gêm y mis diwethaf a honno yn erbyn Llanrug, gydag Andy Thomas yn sgorio tair gôl, yna Lewys Jenner a Gwion Bibby yn cael un yr un. Y gêm nesaf oedd Holyhead Hotspur, ond ar ddiwrnod y gêm, fe gysylltodd Hotspur â Dinbych i ddweud nad oeddent yn gallu cael tîm ynghyd ac felly gwobrwywyd Dinbych gyda'r tri phwynt.



Gêm gyfartal oedd hi i dîm Development Nick Hailes yn erbyn Llysfaen o 2-2, yna cholled o 5-1 yn erbyn Ail Dîm Llandyrnog a achosodd iddynt ddisgyn i'r 9fed safle yn y gynghrair gyda 5 gêm yn weddill.
Oddi ar y cae, cawsom noson arbennig wrth i ni groesawu Osian Roberts atom ar gyfer Noson Chwaraewyr yng Nghlwb Rygbi Dinbych. Diddanodd y comedïwr,John Sellers y gynulleidfa gyda'i jôcs a phawb yn rholio chwerthin. Yna, fe gyflwynodd Dylan Jones o Radio Cymru, Osian Roberts i'r llwyfan, sef cynorthwyydd i reolwr tîm pêl droed Cymru, Ryan Giggs ac sydd hefyd yn Gyfarwyddwr Technegol yr FAW. Rhoddodd gyflwyniad gwych i ni ar bêl-droed Cymru a'i brofiadau yn ystod Ewro 2016. Bu'n noson hynod lwyddiannus gan helpu hefyd wrth godi arian i'r Clwb.

Yn y llun mae Osian Roberts yn ystod ei noson gyda chwaraewyr a chefnogwyr CPD Dinbych.


MEIRION DAVIES A’I GWMNI
01745 812400
Ystâd Ddiwydiannol Colomendy, Dinbych
* Dillad a phethau fferm
* Bwyd anifeiliaid anwes
* Esgidiau a.y.b.
* Tegannau plant - a llawer rhagor
CROESO!
‘Digon i bawb ohonoch
Ydyw lled ein carped coch’
John Glyn Jones

J. H. & B. JONES
CIGYDD TEULU
Gwerthu PYSGOD hefyd
* Cig cartref
* Cig o ffermydd lleol
* Cig i'r rhewgell
92 Stryd y Dyffryn, Dinbych
01745 812132




# CLWB RYGBI DINBYCH

Daeth rhediad 100% y Tîm Cyntaf yn y Gynghrair i ben yn y mwd ar Gaeau Les Phillips, gyda'r tîm o Sir Drefaldwyn, COBRA, yn cario'r dydd o 13-0. Roedd yr ymwelwyr wedi ymdopi â chyflwr y tywydd a'r cae yn well na'r tîm cartref, yn llawer mwy penderfynol ac yn llawn haeddu'r fuddugoliaeth. Roedd gobaith o dalu'r pwyth yn ôl wythnos yn ddiweddarach i lawr yn Meifod, ond fe ohiriwyd y gêm oherwydd mwy o dywydd garw.

Mewn gêm gyfeillgar ar Gae Ddôl, Rhuthun, collodd yr Ail Dîm o 12-7, cyn teithio i Drefriw a cholli o 59-0 yn erbyn Teirw Nant, sef Ail Dîm Nant Conwy. O ganlyniad i'r fuddugoliaeth hwn, fe goronwyd y Teirw yn Bencampwyr Adran 3 Gogledd Cymru. Roedd y Tîm Cyntaf eisoes yn ymwybodol o gryfder y tîm hwn ar ôl cael anhawster i'w curo o 24-13 yn Rownd Cyn-Derfynol Cwpan Ganolradd Gogledd Cymru ar Gaeau Les Phillips ychydig wythnosau'n ôl.
Fe chwaraeodd yr Ieuenctid yn erbyn COBRA ddwywaith o fewn ychydig ddyddiau, gan golli o 22-18 yn Ninbych ac o 17-9 i lawr ym Meifod, y ddwy gêm yn cael eu chwarae dan y llifoleuadau.

Am y trydydd tro'n olynol fe gynhaliwyd Ŵyl Rygbi MiTours yng Nghlwb Rygbi Dinbych ar y Sadwrn a'r Sul ar ôl y Pasg, gyda chwaraewyr ifanc o Gymru, Lloegr, Yr Alban, Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon yn cystadlu. Roedd timau o Rhuthun, Croesoswallt, Y Rhyl, Wrecsam, Llandudno, Caer, Tondu, Leeds, Manceinion, Firth, Shannon, Dulyn a Chorc wedi cytuno i gymryd rhan.

Yn anffodus, oherwydd y tywydd difrifol, dim ond deg gêm chwaraewyd, yn cynnwys Tîm Dan 11 Dinbych yn erbyn Ballynahinch o Iwerddon, cyn gorfod rhoi'r ffidil yn y to amser cinio ar y dydd Sadwrn. Roedd y Clwb wedi edrych ymlaen at groesawu tua 800 o ymwelwyr, yn cynnwys tua 500 o blant, gyda thîm o 60 o wirfoddolwyr o bob adran o'r Clwb ar gael i sicrhau fod yr Ŵyl yn llwyddiant. Roedd Graeme Decke, un o swyddogion yr Adran Mini/Iau ac un o drefnwyr yr Ŵyl, ddim am ddigalonni, ac roedd yn awyddus iawn i ddatgan ei ddiolch i bawb fu mor barod i gefnogi a helpu. Mae'n edrych ymlaen at y flwyddyn nesaf, a chael Gŵyl i'w chofio – yr un gorau eto!

*John Davies*

Trefnwyr Angladdau Annibynnol
R.W.Roberts a'i Fab
Gwasanaeth personol a gofalgar, Ddydd a Nos
Capel Gorffwys breifat yn Ninbych ac yn ein swyddfa newydd yn Abergele
Gorffwysfa, Ffordd Ystrad, Dinbych, LL16 4RH
Ffôn: 01745 812935
Ffacs : 01745 817303
E:rwroberts.gorffwysfa@gmail.com
Plas Tirion, Kinmel Avenue, Abergele, LL22 7LW
Ffôn: 01745 827777
Ffacs : 01745 827750
E: rwroberts.abergele@gmail.com
www.rwrobertsandson.co.uk
Golden Charter Funeral Plans
SAIF

Plaid Cymru | Party of Wales
Llyr Gruffydd AC

Am unrhyw gymorth cysylltwch â fy swyddfa:
Llyr Gruffydd AC
Canolfan Fusnes Birch House
Hen Lôn Parcwr
Rhuthun
LL15 1HN
01824 703593
Llyr.Gruffydd@cynulliad.cymru
Yn gweithio dros y gogledd
@LlyrGruffydd
www.llyrgruffydd.cymru
Cynulliad Cenedlaethol Cymru | National Assembly for Wales

Emyr Evans a'i Gwmni Cyf
Uned 9, Stad ddiwydiannol Colomendy, Dinbych 01745 812333


Stad Ddiwydiannol Gaerwen 01248 421900
Darnau ar gael ar gyfer pob math o beiriannau fferm, Pibellau Hydrolic, Olew a Gwrthrew
e-bost:info@emyrevans.co.uk
JCB M-Hale Massey Ferguson Fendt Pöttinger

Autoclinic Glyn Evans

Stâd Ddwydiannol Colomendy
Dinbych LL16 5TA
Atgyweiriadau damwain, gwaith adfer o safon, jig,
cyfleusterau crasu isel, gwasanaeth cyrchu 24 awr
Ffôn:(01745) 815141

# CLWB RYGBI DINBYCH




Digon o fferins a chacennau.



Cysgodi rhag y glaw.



Dal i fwrw!

## Gŵyl Flodau'r Pasg



Arddangosfa Dosbarth Gweu Dinbych



Moses gan Gapel Prion

**Hysbyseb Gwasg Helygain**



Gwyl y Geni gan gapel y Pentre,Llanrhaeadr



Pum Morwyn Ffol gan Gapel Gellifor




Adda ac Efa gan Gapel y Dyffryn a Bodfari



Capel Brwcws yn arddangos 'Dameg yr Heuwr'



Arch Noa gan Gapel Trefnant



Y Croesholiad gan Gapel Y Fron

***GOLYGYDD Mehefin:John Davies, 1,Ffordd Celyn, Colomendy, Dinbych 812239 johndavies744@btinternet.com***

Cyhoeddwyd gan: Gymdeithas y Bigwn Cysodwyd gan Hywel Evans ac Argraffwyd gan Wasg Helygain